

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

**Aelodau:**

Lindsay Foyster	Cadeirydd ac aelod anweithredol
Adrian Crompton	Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW)
Alison Gerrard	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol
Adam Marshall	Aelod-gyflogai etholedig
Anne Beegan	Aelod-gyflogai etholedig
David Francis	Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
Elinor Gwynn	Aelod anweithredol
Ian Rees	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Kevin Thomas	Aelod-gyflogai penodedig a Chyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS)

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Yn bresennol:**

Anne-Louise Clark	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (EDCC)
Ann-Marie Harkin	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio (EDAS)
Amanda Jenkins	Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd (Cofnodion)
Laurie Davies	Pennaeth Gwasanaethau Busnes (eitemau 9 a 10)
Nicola Evans	Pennaeth Cyllid (eitem 7)

**Yn Arsylwi:**

Catherine Kay	Hyfforddai Graddedig
Rachel Evans	Partner Busnes AD

Eitem	Agenda
1.	Croeso gan y cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau
2.	Datganiadau o fuddiant
3.	Adolygiad o gofnodion: Cyfarfod y Bwrdd 09 Mehefin 2022, Cyfarfod aelodau anweithredol 17 Mehefin 2022
4.	Adolygiad o'r traciwr gweithredu
5.	Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol
6.	Y diweddaraf gan y cadeirydd
7.	Adrodd am berfformiad, gan gynnwys y gofrestr risgiau strategol
8.	Arolwg staff: cynnydd o'i gymharu â chymau gweithredu
9.	Gweithleoedd y dyfodol: penderfyniad
10.	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch: adroddiad blynyddol
11.	Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol 21 Gorffennaf 2022
12.	Cynllun Cydraddoldeb Strategol
13.	Effeithiolrwydd y Bwrdd: diweddariad ar gamau gweithredu a chynigion ar gyfer hunanasesiad 2022-23
14.	Dysgu ar ôl y prosiect: adolygiad teithio a chynhaliadau

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

Eitem	Agenda
15.	Unrhyw fusnes arall
16.	Adolygiad o'r flaenraglen waith
17.	Adolygiad o'r cyfarfod
18.	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Strategol – dydd Mawrth 20 Medi 2022 (Abergele), Busnes – dydd Mawrth 27 Medi 2022 (Teams)

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
<b>Eitemau Sefydlog</b>		
<b>1.</b>	<b>Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau</b>	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol.	
1.2	Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.	
1.3	Byddai Alison Gerrard yn ysgrifennu blog y cyfarfod yn ymgorffori'r pum neges allweddol a fyddai'n cael eu cipio gan yr EDCC.	AG/ EDCC
<b>2.</b>	<b>Datganiadau o fuddiant</b>	
2.1	Datganodd aelodau-gyflogai etholedig y Bwrdd a'r staff a oedd yn bresennol fuddiannau ym mhenderfyniad Gweithleoedd y Dyfodol (eitem 9), i'r graddau y bu'n ymwneud â hwylustod personol wrth weithio yn y swyddfa yng Nghaerdydd. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd buddiannau o'r fath yn niweidiol felly ni fyddai angen i unrhyw un adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno.	
<b>3.</b>	<b>Adolygiad o gofnodion: Cyfarfod y Bwrdd 09 Mehefin 2022 a chyfarfod aelodau anweithredol ar 17 Mehefin 2022</b>	
3.1	Yn amodol ar welliant ar gyfer cywirdeb o ran y rhai a oedd yn bresennol, cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 09 Mehefin fel cofnod cywir.	
3.2	Nododd y Bwrdd gofnodion cyfarfod yr aelodau anweithredol ar 17 Mehefin 2022.	
<b>4.</b>	<b>Adolygiad o'r traciwr gweithredu</b>	
4.1	Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau o'u cymharu â chamau gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn eu hadlewyrchu ar y traciwr, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• WAOB/21/025 (Ymatebion yr arolwg staff): cau gan iddo gael ei gwmpasu gan eitem agenda 8;</li> <li>• WAOB/21/055 (Darparu adnoddau): cau gan y darparwyd diweddariad drwy adroddiad y Prif Weithredwr (eitem 5).</li> <li>• WAOB/21/056 (Darparu adnoddau): cau gan y darparwyd diweddariad drwy adroddiad y Prif Weithredwr (eitem 5).</li> <li>• WAOB/21/060 (Cynllun Cydraddoldeb Strategol): cau gan iddo gael ei gwmpasu gan eitem agenda 12.</li> </ul>	
<b>5.</b>	<b>Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol</b>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
5.1	Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei adroddiad gan dynnu sylw'r Bwrdd at y diweddariad ar gyflenwad a galw Gwasanaethau Archwilio. Amlygodd y cysylltiadau â thrafodaethau cynharach y Bwrdd gyda'r Undebau Llafur gan nodi bod y ddwy set ddata yn dangos darlun tebyg o groesosodiad rhwng data taflenni amser ac adborth anecdotaidd gan staff. Amlygodd y llwyddiant o ran lleihau nifer y swyddi gwag ac atgoffodd y Bwrdd o effaith hyn ar arbedion swyddi gwag yn yr Amcangyfrif.	
5.2	<p>Trafododd y Bwrdd y diweddariad gan gydnabod y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ni ddylai fod rhagdybiaeth awtomatig yn cysylltu oriau ychwanegol â straen, gallai staff fod dan straen ac yn methu gweithio oriau ychwanegol neu eu bod i ffwrdd o'r gwaith gyda salwch sy'n gysylltiedig â straen ac felly'n gweithio dim oriau;</li> <li>• yn dilyn yr Ymarfer Ailosod, rhagwelodd yr EDAS y byddai'r ffigur 500 diwrnod heb adnoddau yn lleihau i adlewyrchu'r sefyllfa'n fwy cywir a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghynllun staff mis Awst;</li> <li>• roedd bwlch mewn gwybodaeth yn ymwneud â staff y Gwasanaethau Corfforaethol, ac amlygodd yr EDAS fod arolygon pwls yn awgrymu y gweithiwyd rhai oriau ychwanegol ond nid ar yr un raddfa ag yn y Gwasanaethau Archwilio; ac roedd y gwaith parhaus i ailstrwythuro'r gwasanaethau corfforaethol wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â phwysau llwyth gwaith yn ogystal ag anghenion busnes eraill;</li> <li>• roedd angen iddo ddeall y darlun llawn a'r cyd-destun, gan gynnwys unrhyw bryderon am y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (ELT) a amlygwyd drwy'r data. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n hapus i'r EDAS gysylltu â hi i drafod ffyrdd amgen o gyflwyno'r wybodaeth.</li> </ul>	
5.3	Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn fodlon i'r EDAS ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyflenwad a galw gwasanaethau archwilio drwy adroddiad y Prif Weithredwr, oni bai fod yr ELT yn penderfynu unrhyw bryd bod rheswm da dros gael papur pwrpasol.	EDAS
5.4	Tynnodd y Bwrdd sylw at y llwyddiant eithriadol yn arholiadau hyfforddeion a phrentisiaid gan eu llongyfarch, yn enwedig Alice Taylor ac Ali Tariq ar eu gwobrau.	
5.5	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
<b>6.</b>	<b>Y Diweddaraf gan y Cadeirydd</b>	
6.1	Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig a dderbyniwyd heb ei ddarllen. Yn dilyn ailbenodi Anne Beegan fel aelod etholedig o'r Bwrdd am gyfnod ychwanegol o bedair blynedd, cynigiodd y Cadeirydd a chymeradwyodd y Bwrdd aelodaeth Anne o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
6.2	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
<b>7</b>	<b>Adrodd am berfformiad</b>	
7.1	Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan groesawu'r dull newydd o ddatblygu adroddiad ar berfformiad integredig. Pwysleisiodd yr angen i'r Bwrdd ganolbwyntio trafodaethau ar agweddau llywodraethu cynnwys yn yr adroddiad yn ei gyfarfod, gan nodi y byddai gwaith ychwanegol yn cael ei wneud ar y cynllun cyn cyfarfod mis Medi. Cynigiodd y Cadeirydd y byddai Anne Beegan, Ian Rees a Lindsay Foyster yn ymuno â'r EDCC a'r Bwrdd a Chefnogaeth y Pwyllgor wrth symud y camau hyn ymlaen.	
7.2	Cyflwynodd yr EDCC becyn papur a sleidiau gan ddarparu gwybodaeth perfformiad chwarter un am gyllid, dangosyddion perfformiad allweddol, cyflawni'r cynllun blynyddol a'r risg strategol. Tynnodd sylw at ddull newydd o gyflwyno gwybodaeth a chroesawodd fewnbwn y Bwrdd i'r cynllun, lefel y manylion ac amseroldeb yr wybodaeth a gyflwynwyd.	
7.3	Esboniodd yr EDCC fod y pecyn yn ceisio darparu cyfres integredig o wybodaeth i'r Bwrdd yn hytrach nag adroddiadau unigol ar bob maes. Tynnodd sylw at y ffaith bod gwybodaeth hefyd wedi'i thriogli o wahanol feysydd o'r busnes, gan gynnwys gwybodaeth Adnoddau Dynol oedd wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn gynharach yn yr wythnos.	
7.4	<p>Amlygodd yr EDCC y canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr asesiad iechyd cyllid oren oherwydd y diffyg yn yr alldro darogan, ond y perygl y gallai hwn symud i goch a sicrhawyd y Bwrdd y byddai'r ELT yn monitro'r sefyllfa'n fanwl;</li> <li>• bod llawer o'r data perfformiad yn cyd-fynd â meysydd yr oedd y Bwrdd eisoes wedi'u trafod heddiw gyda risgiau penodol yn ymwneud â llesiant staff;</li> <li>• y cydgysylltu rhwng y risgiau strategol sy'n gysylltiedig â balansau ariannol a materion yn ymwneud â'r gweithlu;</li> <li>• roedd rhai risgiau wedi'u cau yn sgil camau lliniaru yn cael eu cwblhau a risgiau newydd yn cael eu hagor yn ymwneud â phwysau'r gyllideb a lle swyddfa;</li> <li>• byddai'r ELT yn adolygu'r gyfres lawn o risgiau yn ei gyfarfod nesaf, gan ystyried canlyniad adolygiad taflen wag diweddar y Bwrdd.</li> </ul>	
7.5	Eglurodd y Pennaeth Cyllid, er bod incwm y flwyddyn hyd yn hyn ar y blaen o'i gymharu â rhagolygon, byddai cynyddu lefelau salwch yn effeithio arno. Amlygodd y ffaith, o'i chymharu â'r un pwynt yn 2021-22 fod y sefyllfa eleni yn bryderus ond roedd hi'n rhagweld y gallai mwy gael ei ryddhau o gyllidebau heb gysylltiad â chyflog gan gynnwys cyllideb Teithio a Chynhaliaeth gan fod faint o deithio sydd	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	ei angen yn parhau i fod yn ansicr. Cadarnhaodd y byddai'r ELT yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n fanwl ac erbyn mis Medi byddai'r Bwrdd naill ai'n rhoi sicrwydd bod y sefyllfa wedi gwella neu'n amlinellu'r camau adferol sydd eu hangen.	
7.6	<p>Trafododd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y posibilrwydd o risg newydd yn gysylltiedig â'r problemau o ran recriwtio staff a lefelau absenoldeb oherwydd salwch sy'n effeithio ar incwm yn y dyfodol a'r balansau ariannol;</li> <li>• bod y risgiau strategol mewn cyfnod pontio ar hyn o bryd gan nad oedd canlyniadau'r adolygiad dalen wag wedi'u hymgorffori hyd yn hyn;</li> <li>• effaith recriwtio mewnol ar y targed arbedion swyddi gwag a bod unrhyw arbedion o ôl-lenwi heb eu hymgorffori yn y rhagolwg;</li> <li>• effaith bosibl cadw swyddi gwag ar y cyfle i greu incwm, pwysau staff a chyfraddau salwch.</li> </ul>	
7.7	Trafododd y Bwrdd y dull newydd o ymdrin â'r adroddiad a chytunodd ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir ac yn dangos rhyng-gysylltedd rhwng gwahanol agweddau o'r busnes yn glir. Roedd yn trafod lefel y ffurfioldeb sydd ei angen yn yr wybodaeth ac yn cytuno y byddai'r EDCC yn gweithio gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen arfaethedig i ddatblygu'r adroddiad integredig ymhellach cyn cyfarfod mis Medi.	EDCC/ LF/IR/AB
7.8	Nododd y Bwrdd y diweddariad.	
<b>8</b>	<b>Arolwg staff: cynnydd o'i gymharu â chamau gweithredu</b>	
8.1	Cyflwynodd yr EDCC bapur wedi'i gefnogi gan gyflwyniad yn amlinellu'r gweithgaredd a'r cynnydd a wnaed o'u cymharu â chamau a ddatblygwyd i fynd i'r afael â meysydd allweddol sy'n deillio o ganlyniadau'r arolwg staff.	
8.2	<p>Amlinellodd yr EDCC sut yr ymchwiliwyd i'r ddau faes â boddhad isel, sef dysgu a datblygu ac arwain newid, drwy gyfweiliadau archwilio'n ddwfn gyda grŵp bach o staff yn ogystal â'r adolygiad canol blwyddyn a fu'n arolwg staff ar-lein sydyn a byr i roi rhai rhagdybiaethau ar brawf.</p> <p>Amlygodd y canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• roedd y sgysiau treiddgar a thrylwyr yn canolbwyntio ar brofiadau gwirioneddol staff ac yn dangos bod y rhai a oedd yn hunan-gymhellol yn teimlo bod y sefydliad yn eu cefnogi yn eu datblygiad;</li> <li>• roedd profiad hyfforddeion yn gadarnhaol ar y cyfan ac roeddent yn mynegi eu bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gawsant;</li> <li>• roedd yn well gan staff ddysgu mewn tameidiau bychain a fyddai ar gael pryd yr oedd eu hangen arnynt ac roedd hynny'n gweddu orau iddynt;</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• roeddent yn hoffi dysgu LinkedIn ac ESS ac yn eu deall;</li> <li>• roedd y canfyddiadau'n awgrymu bod y camau gweithredu ar waith yn gwneud gwahaniaeth, ond gallai newidiadau gael eu cyfleu'n well gan adrodd straeon am brofiadau staff.</li> </ul>	
8.3	<p>Trafododd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod rhai sylwadau yn cytuno â'r hyn a glywyd mewn trafodaethau cynharach gyda'r undebau llafur ynghylch llwyth gwaith a darparu adnoddau a phwysigrwydd defnyddio sianeli fel Pobl i rannu'r gwaith i fynd i'r afael â'r pryderon hyn;</li> <li>• yr amrywiaeth o feysydd newid allweddol a godwyd gan staff yn y trafodaethau;</li> <li>• yr angen i barhau i gael yr wybodaeth gryno hon a mwy o wybodaeth ansoddol wrth symud ymlaen i ddeall a mynd i'r afael â phryderon staff yn well.</li> </ul>	
8.4	<p>Sicrhawyd y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• fod llawer o negeseuon cadarnhaol yn deillio o'r canfyddiadau;</li> <li>• y byddai'r canlyniad yn cael ei gyflwyno'n ôl i staff er mwyn rhoi sicrwydd bod yr ELT a'r Bwrdd yn gwrando ar eu hymatebion ac yn gweithredu ar eu hymatebion.</li> </ul>	
<b>9</b>	<b>Gweithleoedd y Dyfodol</b>	
9.1	<p>Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes bapur a chyflwyniad ategol yn amlinellu'r achos busnes ar gyfer adleoli swyddfa Heol y Gadeirlan. Ailadroddodd y broses a ddilynwyd, a'r ffactorau a ystyriwyd i greu rhestr fer i ddechrau ac yna argymhell symud i 1 Cwr y Ddinas.</p>	
9.2	<p>Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes y rhesymeg y tu ôl i'r argymhelliad, gan dynnu sylw at y canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• roedd yr eiddo'n bodloni amcanion arbedion gyda'r cyfle i drafod prydles ar wahân fesul llawr i leihau'r gost os canfyddir ei fod yn rhy fawr;</li> <li>• ar y cyfan, roedd yn diwallu anghenion busnes hefyd, os nad yn well na'r safle arall hyd yn oed;</li> <li>• dylai gyflawni perfformiad amgylcheddol uwch na'r eiddo eraill ar y rhestr fer;</li> <li>• roedd un llawr eisoes yn barod i'w feddiannu.</li> </ul>	
9.3	<p>Cadarnhaodd yr EDCS fod Bwrdd y Rhaglen Newid a'r Grŵp Llywio <b>OFW</b> o'r farn mai 1 Cwr y Ddinas oedd y lleoliad mwyaf addas ar gyfer anghenion busnes.</p>	
9.4	<p>Trafododd y Bwrdd y canlynol:  <u>Dewisiadau ar gyfer safleoedd</u></p> <p>Manteision ac anfanteision pob safle ar y rhestr fer, gan nodi bod Cwr y Ddinas yn safle modern, effeithlon o ran ynni ac yn agos at</p>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	<p>gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus a meysydd parcio ceir. Trafodwyd y cynnig hwyr a gafwyd gan landlord Heol y Gadeirlan, gan nodi hyd yn oed gyda thenantiaid ychwanegol na fyddai'r targed arbedion yn cael ei gyrraedd a bod perygl y gallai'r cynnig gael ei dynnu'n ôl.</p> <p><u>Ymgysylltu â staff</u></p> <p>Nododd lefel yr ymgysylltu â staff hyd yma, gyda nifer o ymweliadau safle wedi'u cynnal gyda staff o bob rhan o'r sefydliad, a'r adborth cadarnhaol ynghylch Cwr y Ddinas. Sicrhawyd bod yr Undebau Llafur wedi cymryd rhan lawn trwy gydol y broses.</p> <p><u>Dodrefnu</u></p> <p>Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes y cafwyd trafodaethau gyda'r landlord, a'u bod yn gallu dodrefnu'r safle a'i gael yn barod a fyddai'n helpu i leihau rhywfaint o'r pwysau oherwydd cyfyngiadau amser. Pwysleisiodd fod un llawr yn barod i'w feddiannu ar unwaith, a oedd yn fantais arall yn wyneb y cyfyngiadau amser.</p> <p><u>Costau a chyllideb atodol</u></p> <p>Nododd y Bwrdd y byddai'r holl safleoedd ar y rhestr fer yn cyflawni'r targed arbedion; roedd yn cydnabod mai'r safle a argymhellwyd oedd â'r costau uchaf ond un ond cafodd sicrwydd y byddai'r targed arbedion yn cael ei gyflawni ac ystyriwyd mai'r safle hwn oedd o'r ansawdd uchaf a'r un gorau yn gyffredinol i sicrhau'r buddion gorau</p> <p><u>Y Pwyllgor Cyllid</u></p> <p>Trafododd ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid a chadarnhaodd AGW fod llythyr wedi'i ddrafftio yn amlinellu costau cyfalaf a referniw symud felly ni fyddai unrhyw beth annisgwyl yn codi ym Mhwyllgor Cyllid mis Medi. Eglurodd fod y costau'n cael eu hystyried yn rhan o wariant cynnal busnes arferol gyda diwedd y brydles bresennol, nid costau eithriadol. Eglurodd yr EDCS y nod o geisio buddsoddi o flaen llaw gan dynnu sylw at y gostyngiad mewn costau cynnal parhaus a'r sgil effaith bosibl wrth leihau galwadau yn y dyfodol ar Gronfa Gyfunol Cymru a/neu ffioedd.</p> <p><u>Effaith hirdymor</u></p> <p>Sicrhawyd y Bwrdd fod gwerth cymdeithasol ac effeithiau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi eu hystyried yn llawn gan nodi'r defnydd o'r offeryn TOMS Cymru er mwyn sicrhau bod pob maes wedi'i gwmpasu. Trafododd y Bwrdd y cyfle i sicrhau bod gwaith dodrefnu'r safle yn llwyddo i gyflawni nodau cynaliadwyedd.</p>	
9.5	<p>Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes y camau a'r llinell amser nesaf. Nododd y Bwrdd y byddai tudalen Hyb pwrpasol, sesiwn Zoom i'r holl staff ar ôl penderfyniad y Bwrdd heddiw a chyfranogiad helaeth gan staff yn y gwaith cynllunio a chreu naws y swyddfa.</p>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Cam Gweithredu</b>
9.6	Cadarnhaodd yr EDCS y bu ymgysylltu eisoes â Chlercod y Pwyllgor Cyllid a chadarnhawyd bod y llythyr a oedd yn mynd i'r Cadeirydd yn crynhoi'r achos busnes a'r achos dros newid ac yn amlinellu gofynion y gyllideb cyn ac ar ôl y rhaglen gyfalaf. Cadarnhaodd y byddai'r Gyllideb Atodol yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor yn breifat oherwydd y sensitifrwydd masnachol. Bu'r Bwrdd yn trafod amseru gan gytuno y gellid ymdrin ag unrhyw ystyriaeth bellach y byddai ei angen ganddo yn rhithiol.	
9.7	Er bod popeth posibl wedi'i wneud i frifio'r Pwyllgor Cyllid, cadarnhaodd AGW fod risg o hyd na fyddai yna gytuno ar y cyllid yn ei gyfarfod ym mis Medi. Cadarnhaodd fod dewisiadau ac oblygiadau'r sefyllfa waethaf ar gyfer cyllidebau cyfalaf y dyfodol yn cael eu hystyried pe na bai'r Gyllideb Atodol yn cael ei chymeradwyo.	
9.8	Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod wedi cael sicrwydd bod proses gadarn a thrylwyr wedi'i dilyn a bod pob ffactor wedi'i ystyried wrth wneud yr argymhelliad. Mynegodd ei ddiolch i'r Pennaeth Gwasanaethau Busnes a'i thîm a'r Grŵp Llywio am gadernid yr achos busnes a'r gwaith caled a wnaed i gyrraedd yr argymhelliad.	
9.9	Cytunodd y Bwrdd ac aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol fod y dewis a argymhellwyd yn gyfle cyffrous a chadarnhaol i'r sefydliad cyfan ac y byddai'n cyfrannu at gefnogi llesiant staff.	
9.10	Cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol; <ul style="list-style-type: none"> <li>• symud i 1 Cwr y Ddinas, Caerdydd gyda phrydles 10 mlynedd a seibiant o 5 mlynedd, gyda chytundebau/seibiannau prydles ar wahân fesul llawr;</li> <li>• ceisio amcangyfrif atodol;</li> <li>• negodi ynghylch y landlord yn ymgymryd â chyfran o'r gwaith dodrefnu ar gyfer y tenant, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy ychwanegol.</li> </ul>	
<b>10</b>	<b>Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch</b>	
10.1	Eglurodd y Cadeirydd er bod adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn cwmpasu adrodd ar absenoldeb oherwydd salwch, byddai trafodaeth ar y maes hwn yn cael ei oedi er mwyn iddo gael ei gwmpasu fel rhan o'r agwedd risg drwy adroddiad cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol.	
10.2	Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes adroddiad blynyddol y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch gan dynnu sylw at y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• fel yr amlinellwyd gan y Cadeirydd, roedd yr adroddiad yn cynnwys tueddiadau o ran absenoldeb oherwydd salwch, ond cadarnhaodd y byddai'r eitem hon yn cael ei thrafod yn fanylach gan adroddiad y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol;</li> </ul>	



**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• roedd yr holl staff wedi cymryd yr isafswm gwyliau blynyddol statudol, ond bu cynnydd ymhlith y rhai a oedd yn cario mwy na naw diwrnod o wyliau drosodd;</li> <li>• roedd llawer o waith wedi digwydd i ddatblygu'r Strategaeth Llesiant a'r cynlluniau gweithredu, gan gynnwys creu'r swyddogaeth newydd Hyrwyddwr Llesiant.</li> </ul>	
10.3	Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes y newid arfaethedig i enw'r grŵp i'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant gan gyfeirio'r Bwrdd at y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddarau yn llyfrgell gyfeirio'r Bwrdd.	
10.4	Trafododd y Bwrdd y gwyliau a oedd yn cael eu cario drosodd a'i ymrwymiad blaenorol i leihau nifer y staff a oedd yn cario mwy na naw diwrnod drosodd. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes fod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn cytuno bod angen dull cadarn o sicrhau llesiant staff a byddai'n cael ei gwmpasu yn y rhaglen hyfforddi rheolwr llinell sydd i'w gyflwyno yn fuan. Dywedodd y Bwrdd y byddai'n dymuno i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch fonitro'n fanwl a rhoi rhybudd cynnar i'r Bwrdd pe bai'r ffigur hwn yn parhau i gynyddu.	LD
10.5	Trafododd y Bwrdd swyddogaeth bwysig rheolwyr wrth osod y cywair ar gyfer llesiant staff a nodwyd nad oedd unrhyw reolwr yn Hyrwyddwr Llesiant.	
10.6	Diolchodd y Bwrdd i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch am ymgorffori'r data tueddiadau yn ei adroddiad. Nododd y briff a chymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor a'r newid enw i'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant.	
<b>11.</b>	<b>Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol 21 Gorffennaf 2022</b>	
11.1	Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol ei hadroddiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 21 Gorffennaf, a oedd yn ategu'r papurau a gynhwysir ym mhecyn y Bwrdd.	
11.2	<p>Amlygodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• argymhelliad y Pwyllgor i oedi'r adolygiad o linellau amser yn ymwneud â'r pwll adleoli a diogelu cyflogau o fewn Polisi Cynllunio'r Sefydliad a'r Gweithlu, yn seiliedig ar gyngor y rheolwyr y gallai ystyried y materion hyn ar hyn o bryd effeithio'n negyddol ar gysylltiadau diwydiannol staff a rhai ehangach;</li> <li>• bod lefel absenoldeb oherwydd salwch wedi codi mewn sawl trafodaeth yn ystod cyfarfodydd heddiw, ac ail-bwysleisiodd</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Cam Gweithredu</b>
	tybed a oedd cyfiawnhad dros sefydlu risg strategol ar y gofrestr oherwydd yr effaith bosibl ar ddarparu gwasanaethau.	
11.3	Bu'r Bwrdd yn trafod y ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, ac amgylcheddol, fel y pwysau ar y GIG, sy'n effeithio ar y cyhoedd yn ei gyfanrwydd ac felly disgwylir ei weld yn cael ei adlewyrchu ymhlith y gweithlu gan ddylanwadu ar lefelau absenoldeb oherwydd salwch.	
11.4	Gofynnodd y Bwrdd i'r ELT ystyried eto, fel rhan o'u proses cymhathu canlyniadau o'r adolygiad risg blynyddol, pa un a oedd y sefyllfa absenoldeb oherwydd salwch wedi'i chwmpasu'n ddigonol ar y gofrestr risg strategol. Nododd y Bwrdd y byddai'n cael canlyniad yr ymarfer hwn yn ei gyfarfod ym mis Medi.	ELT
11.5	Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i oedi'r adolygiad o ddarpariaethau ym Mholisi Cynllunio'r Sefydliad a'r Gweithlu sy'n ymwneud â'r pwll adleoli a diogelu cyflogau tan fis Gorffennaf 2023. Fel arall, nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
<b>12.</b>	<b>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</b>	
12.1	Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd eu bod wedi cael cyfleoedd i ymgysylltu â datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) yn y gorffennol a bod y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo.	
12.2	Cyflwynodd yr EDCC fersiwn derfynol y SEP a oedd wedi'i ail-lunio i ystyried adborth yr aelodau a'i ddosbarthu er mwyn cael sylwadau cyn cyfarfod y Bwrdd heddiw.	
12.3	Nododd y Bwrdd fod cywair ac iaith y fersiwn ddiwygiedig yn adlewyrchu ei uchelgais yn well. Diolchodd i'r EDCC a'r tîm Cyfathrebu a Chynllunio am eu gwaith.	
12.4	Cymeradwyodd y Bwrdd y SEP a chadarnhau nad oedd angen i'r fersiwn a gynlluniwyd ddod yn ôl i unrhyw gyfarfod yn y dyfodol; cytunodd y byddai'r Cadeirydd ac AGW yn cymeradwyo fersiwn derfynol y cynllun.	Cadeirydd/ AGW
<b>13</b>	<b>Effeithiolrwydd y Bwrdd</b>	
13.1	Cyflwynodd yr Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd bapur a oedd yn darparu'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu â'r camau gweithredu yn deillio o hunanasesiad Bwrdd 2020-21 a'r adolygiad effeithiolrwydd allanol yn 2021-22;</li> <li>• cynnig ar gyfer fformat a chynnwys hunanasesiad y Bwrdd o'i effeithiolrwydd yn 2022-23.</li> </ul>	
13.2	Amlygodd AGW y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd llawer o gynnydd wedi'i wneud ar feysydd a nodwyd o'r asesiad blaenorol, ond roedd gwaith i'w wneud o hyd;</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Cam Gweithredu</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>roedd y cwestiynau arfaethedig ar gyfer 2022-23 yn gyfres symlach ac yn codi'r cwestiwn a ddylid ymestyn yr holiadur i eraill a oedd yn cyflwyno papurau i'r Bwrdd yn rheolaidd.</li> </ul>	
13.3	Trafododd y Bwrdd yr holiadur hunanasesu arfaethedig, awgrymodd yr EDCS y dylid ymgorffori cyfeiriad penodol at y gwerthoedd a'r ymddygiadau. Cytunodd y byddai'r Cadeirydd yn gwirio'r cwestiynau gydag Ysgrifennydd y Bwrdd o'u cymharu â'r model llywodraethu er mwyn sicrhau bod pob agwedd wedi'i chwmpasu'n ddigonol.	Cadeirydd / BS
13.4	Trafododd y Bwrdd a ddylid ymestyn yr holiadur hunanasesu i eraill, gan nodi y byddai'r adolygiad allanol llawn nesaf yn cael ei gynnal mewn ychydig o flynyddoedd. Cytunodd y byddai cael barn y rhai a fynychai'r Bwrdd yn rheolaidd yn ychwanegu gwerth. Byddai'r EDCS yn trafod gydag Ysgrifennydd y Bwrdd pwy i'w cynnwys yn nosbarthiad yr holiadur hunanasesu.	EDCS
13.5	Cymeradwyodd y Bwrdd, yn amodol ar y diwygiadau a drafodwyd, y cynnig ar gyfer fformat a chynnwys hunanasesiad y Bwrdd o'i effeithiolrwydd yn 2022-23.	
<b>14</b>	<b>Dysgu ar ôl y prosiect: adolygiad teithio a chynhaliaeth</b>	
14.1	Cyflwynodd yr EDCC bapur a chyflwyniad ategol yn crynhoi canlyniadau'r ymarfer dysgu ar ôl y prosiect adolygiad teithio a chynhaliaeth. Amlygodd y broses a ddilynwyd a'r gwersi allweddol a ddysgwyd.	
14.2	Nododd y Bwrdd y byddai'r dysgu'n cael ei adlewyrchu yn y prosiect Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol wrth symud ymlaen a byddai cyfres o egwyddorion yn cael eu sefydlu i'w defnyddio ar gyfer pob prosiect corfforaethol mawr. Nododd werth mewnwelediad a chadernid yr ymarfer.	
14.4	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
<b>15</b>	<b>Unrhyw fusnes arall</b>	
15.1	Dim	
<b>16</b>	<b>Adolygiad o'r flaenraglen waith</b>	
16.1	Nododd y Bwrdd ei flaenraglen waith y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei diweddarau.	
<b>17</b>	<b>Adolygiad o'r cyfarfod</b>	
17.1	<p>Croesawodd y Bwrdd adborth gan aelodau'r staff oedd yn arsylwi'r cyfarfod a oedd yn cydnabod y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>y sgysiau diddorol a chymhleth a oedd wedi'u cynnal;</li> <li>y cyfle i weld sut y cwblhawyd prosiectau y bu staff yn gweithio arnynt;</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 27 Gorffennaf 2022**

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Cam Gweithredu</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>cael cipolwg ar sut yr oedd popeth 'tu ôl i'r llenni' yn gweithio.</li> </ul> <p>Pwysleisiodd y Cadeirydd fod cyfarfodydd y Bwrdd yn agored i unrhyw staff sy'n dymuno arsylwi ac y byddent yn croesawu arsylwyr staff sy'n rhannu eu profiadau â chydweithwyr.</p>	
17.2	Myfyriodd yr aelodau ar hyd yr agenda a'r amser cyfyngedig ar gyfer seibiannau, gan nodi'r effaith yn sgil ei gyfarfod cynharach gyda'r undebau llafur yn mynd dros amser. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn trefnu'r cyfarfodydd nesaf ar ddyddiadau gwahanol i ddyddiadau cyfarfod y Bwrdd ac yn trefnu bod y rhain yn gyfarfodydd personol pan fo'n ymarferol.	BS
17.3	Gofynnodd AGW am adborth ar ei adroddiad ysgrifenedig ac fe gadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn croesawu'r adroddiad a'i fod yn berthnasol ac yn ddiddorol wrth roi cipolwg gwerthfawr ar yr hyn a oedd yn digwydd ar draws y proffesiwn archwilio a'r busnes.	
<b>18</b>	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b>	
18.1	Cyfarfod Strategol: dydd Mawrth 20 Medi 2022, (Abergele) Cyfarfod Busnes: dydd Mawrth 27 Medi 2022, (Teams).	